

Urddas a Gofal Hanfodol Arolygiad (Dirybudd)

**Bwrdd Iechyd Prifysgol
Cwm Taf: Ysbyty Brenhinol
Morgannwg, Adran
Damweiniau ac Achosion
Brys**

14/15 Ionawr 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Y Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Methodoleg	2
3.	Cyd-destun.....	3
4.	Crynodeb	4
5.	Canfyddiadau	6
	Ansawdd Profiad y Claf	6
	Cyflenwi Hanfodion Gofal	9
	Ansawdd Staffio, Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	14
	Cyflenwi Gwasanaeth Diogel ac Effeithiol	17
6.	Y Camau Nesaf.....	20

1. Cyflwyniad

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad urddas a gofal hanfodol dirybudd yn Adran Damweiniau ac Achosion Brys Ysbyty Brenhinol Morgannwg, rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, ar 14 a 15 Ionawr 2015.

Mae ein harolygiad yn ystyried y materion canlynol:

- Ansawdd profiad y claf
- Cyflenwi hanfodion gofal
- Ansawdd staffio, rheolaeth ac arweinyddiaeth
- Cyflenwi gwasanaeth diogel ac effeithiol

2. Methodoleg

Mae arolygiadau urddas a gofal hanfodol AGIC yn adolygu'r ffordd mae urddas cleifion yn cael ei gynnal ar ward/uned/adran ysbyty a'r gofal nyrsio hanfodol, sylfaenol y mae'r cleifion yn ei dderbyn.

Rydym yn adolygu dogfennau a gwybodaeth gan nifer o ffynonellau gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Sgyrsiau gyda chleifion a pherthnasau a chyfweliadau gyda staff
- Trafodaethau ag uwch-reolwyr y bwrdd iechyd
- Archwilio sampl o gofnodion meddygol cleifion
- Craffu ar bolisiâu a gweithdrefnau sy'n sail i ofal cleifion
- Arsylwadau cyffredinol o amgylchedd y gofal a'r arferion gofal

Mae'r arolygiadau hyn yn cynnig cipolwg ar y safonau gofal y mae cleifion yn eu derbyn. Gall yr arolygiadau hyn dynnu sylw hefyd at faterion ehangach ynglŷn ag ansawdd a diogelwch urddas a gofal hanfodol.

3. Cyd-destun

Mae Adran Damweiniau ac Achosion Brys Ysbyty Brenhinol Morgannwg yn trin nifer fawr o gleifion bob dydd. Mae pedair cilfan ddadebru, tair cilfan i oedolion, ac un sydd wedi'i neilltuo ar gyfer cilfan bediatrig. Mae 11 cilfan yn yr uned anafiadau difrifol a chwe chilfan yn yr uned mân anafiadau, lle mae un o'r cilfannau wedi'i neilltuo ar gyfer asesu a thrin cleifion sydd â chyflwr llygaid ac ar gyfer triniaeth clust, trwyn a gwddf. Mae ystafell aros bediatrig ar wahân ar gyfer plant.

Mae gan yr adran Uned Triniaethau Dydd mewn Argyfwng, sy'n darparu triniaeth i gleifion o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 9 a.m. a 5 p.m., ac sy'n bodloni anghenion cleifion sy'n aros dros nos ar adegau pan nad oes unrhyw welyau ar gael ar y wardiau. Nid oedd hon yn cael ei defnyddio yn ystod yr arolygiad.

Nid oes uned penderfyniadau clinigol yn yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys. Fodd bynnag, mae uned asesu feddygol wedi'i lleoli yn yr ysbyty. Mae gan gerbydau ambiwlans fynedfa ar wahân i'r fynedfa sy'n cael ei defnyddio gan y rhai sy'n cerdded i mewn. Mae cleifion sy'n cyrraedd yr uned ar droed yn cael eu brysbennu cyn gynted â phosibl ar ôl iddynt gyrraedd yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys, ac yna maent yn cael eu gweld ym mha bynnag ardal glinigol yr adran sydd fwyaf priodol ar gyfer eu hanghenion a'u cyflwr.

Ar adeg yr arolygiad, roedd gan yr uned nifer isel hyd at gymedrol o gleifion. Yr amser aros ar gyfartaledd oedd pedair awr, ac nid oedd yr un ambiwlans yn aros y tu allan i'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys yn ystod yr arolygiad.

Yn ystod ein harolygiad, gwelsom staff yn blaenoriaethu anghenion cleifion a gofynion triniaethau clinigol. Ni welsom yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys yn gweithio i'r eithaf yn ystod ein harolygiad.

4. Crynodeb

Dyweddodd pob un o'r cleifion a pherthnasau y buom yn siarad â nhw eu bod yn hapus iawn â'r gofal a dderbyniwyd ganddynt yn yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys. Ar adeg yr arolygiad, roedd cleifion yn cael eu brysbennu a'u trin ymhen pedair awr, ac roedd llawer o'r rheini a oedd â mân anafiadau yn eu cael eu gweld a'u trin ymhen awr iddynt gyrraedd.

Gwelsom dîm o staff yn gweithio dan arweinyddiaeth gadarn dau reolwr nyrsio ac un ymgynghorydd. Roedd pob aelod o staff yn darparu gofal ac yn rhyngweithio â chleifion mewn modd sensitif a phroffesiynol. Gwelsom gleifion yn cael eu trin â charedigrwydd a pharch gan staff. Roedd y cleifion y buom yn siarad â nhw yn canmol agwedd y staff a'r ffordd yr oeddent yn eu trin.

Roedd yr adran yn gymharol brysur, ond roedd yn heddychlun ac nid yn swnllyd. Roedd hefyd yn drefnus iawn, ac roedd staff yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau.

Gwnaethom nodi rhai materion a oedd yn ymwneud ag amgylchedd yr adran. Mae nifer o fynedfeydd at yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys, ac mae un ohonynt yn deillio wrth brif coridor yr ysbyty. Nid yw'r pwyntiau mynediad hyn wedi'u diogelu, ac mae potensial y gallent fod yn risg diogelwch. Nid oedd un o'r ddau doiled yn yr ystafell aros yn gweithio, ac roedd wedi bod yn y cyflwr hwnnw ers pum diwrnod. Gallai hyn achosi anawsterau i gleifion a oedd am ddefnyddio'r tai bach yn ystod amseroedd prysur. Gwnaethom hefyd sylwi bod problem gyda chlo'r cwpwrdd cyffuriau, a oedd yn ei wneud yn anodd ei gloi'n gywir i sicrhau bod y feddyginiaeth yn cael ei chadw'n ddiogel.

Gwelsom staff yn cyflenwi hanfodion gofal. Trwy drafod â'r staff, daeth i'r amlwg bod hanfodion gofal yn ffurfio sail y gofal a'r driniaeth a ddarperir yn yr adran.

Mae gan yr adran berthynas waith dda â'r timau cyswllt rhyddhau, rheolwyr y safle, a'r rheolwyr gwelyau, a gwelsom staff yn cydweithio â'i gilydd i sicrhau bod llif y cleifion yn cael ei gynnal a'i gadw.

Mae perthynas waith ddeongliadol rhwng yr adran ac arbenigwyr eraill yn yr ysbyty, megis iechyd meddwl, llawdriniaeth, bydwreigiaeth, a gynaeoleg, sy'n galluogi cleifion i dderbyn triniaeth yn amserol. Fodd bynnag, bu problemau ynglŷn â chael mynediad at Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed, yn enwedig y tu allan i oriau ac yn ystod y penwythnos, a gorfu i gleifion gael eu hanfon at y wardiau pediatrig ar gyfer arsylwadau.

Pan oedd angen gofal brys ar gleifion, gwelsom fod hwn yn cael ei roi iddynt yn gyson brydlon, gan gynnwys y cleifion hynny a oedd yn cyrraedd mewn

ambiwylansys. Wrth ddefnyddio eu sgiliau a'u galluoedd ym maes blaenoriaethu'n glinigol, roedd y tîm staff yn gwneud gwaith ardderchog wrth sicrhau bod cleifion yn derbyn gofal brys pan oedd eu cyflwr ar ei fwyaf ansefydlog.

Roedd cleifion a oedd â chyflwr mwy sefydlog yn cael eu gweld yn amserol. Gwelwyd yr ymarferydd nyrsio brys yn rhoi gofal a thriniaeth o ansawdd uchel i gleifion, ac roedd hyn yn caniatáu i aelodau'r tîm a oedd yn weddill i ganolbwyntio ar y cleifion hynny a oedd ag angen gofal mwy argyfyngus.

Er na welsom yr adran yn gweithio i'r eithaf, roeddem yn fodlon y gallai'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys gynnal lefel ddigonol o ddiogelwch i gleifion pe bai cynnydd o ran galw.

Ni chodwyd unrhyw gamau gweithredu ar unwaith gyda'r bwrdd iechyd yn sgîl yr arolygiad hwn.

5. Canfyddiadau

Ansawdd Profiad y Claf

Fe wnaeth pob un o'r cleifion a pherthnasau y buom yn siarad â nhw ddweud eu bod yn hapus iawn â'r gofal a dderbyniwyd ganddynt yn yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys. Roedd cleifion yn cael eu blaenoriaethu a'u trin ymhen pedair awr, ac roedd nifer o'r cleifion mân anafiadau'n cael eu gweld a'u trin ymhen awr ar ôl iddynt gyrraedd.

Gwelsom dîm staff yn gweithio gydag arweinyddiaeth gref dan arweiniad dau reolwr nyrsio ac un ymgynghorydd. Roedd pob aelod o staff yn darparu gofal ac yn rhyngweithio â chleifion mewn modd sensitif a phroffesiynol.

Gwelsom blentyn yn derbyn gofal yn y ciwbicl wedi'i neilltuo i blant, a gwnaethom sylwi bod staff yn sensitif i anghenion y plentyn a'r rhieni. Gwelsom oedolion yn derbyn triniaeth yn y brif adran. Roedd nifer o gleifion ar wahanol gamau o ran eu triniaeth a'r broses sefydlogi.

Oherwydd bod nifer fach o gleifion yn aros i gael eu blaenoriaethu, dim ond deg o holiaduron a roddwyd i gleifion.

Yn ystod yr arolygiad hwn, gwnaethom sgwrsio'n anffurfiol â nifer fach o gleifion a pherthnasau yn yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys a oedd yn aros i dderbyn triniaeth. O ganlyniad i'r amseroedd aros byr, bu'n bosibl i sgwrsio'n anffurfiol â nifer fach iawn o gleifion yn unig a oedd yn y brif ystafell aros, cyn iddynt gael eu gweld gan ymarferydd nyrsio brys neu feddyg i gael eu hasesu a'u trin.

Roedd pob un o'r cleifion a'r perthnasau y buom yn siarad â nhw yn dweud eu bod yn hapus iawn â'r gofal a dderbyniwyd ganddynt yn yr adran. Dywedodd un claf a oedd yn aros i gael ei weld ei fod yn gwybod ble i fynd i gael triniaeth o ganlyniad i'r ymgyrch Dewis Doeth,¹ sydd ar hyn o bryd yn cael ei gweithredu ledled y bwrdd iechyd.

¹Mae Dewis Doeth yn ddull i helpu'r cyhoedd i benderfynu a oes angen sylw meddygol arnynt os ydynt yn sâl. Mae'n esbonio'r hyn y mae pob gwasanaeth GIG yn ei wneud, a pha bryd y dylid ei ddefnyddio. Mae hyn o gymorth i sicrhau bod pobl yn derbyn y driniaeth orau bosib, ac mae hefyd yn galluogi gwasanaethau prysur y GIG i helpu'r bobl sydd eu hangen fwyaf.

Mae llawer o fynedfeydd i'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys, ac mae un ohonynt yn deillio o brif goridor yr ysbyty. Nid yw'r pwyntiau mynediad hyn wedi'u diogelu, ac mae potensial y gallent fod yn risg diogelwch.

Argymhelliad

Argymhellir bod y bwrdd iechyd yn ystyried ymgymryd ag adolygiad o'r mynedfeydd i'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys nad ydynt wedi'u diogelu, er mwyn sicrhau bod mynediad at yr adran yn cael ei reoli.

Mae gan gerbydau ambiwlans fynedfa ar wahân i'r fynedfa sy'n cael ei defnyddio gan y rhai sy'n cerdded i mewn. Roedd prif ddesg cofrestru'r cleifion yn fach, ac roedd o fewn ardal ddiogel â phanel wydr a oedd yn cynnwys blychau i siarad trwyddynt. Cawsom wybod gan y ddau dderbynydd bod y blychau siarad wedi'u gosod yn ddiweddar a'u bod yn rhy uchel i nifer o'r cleifion eu hymestyn, ac roedd hyn yn peri problemau am nad oedd y derbynydd bob amser yn gallu clywed yn glir yr hyn roedd y cleifion/perthnasau yn ei ddweud.

Argymhelliad

Argymhellir bod y bwrdd iechyd yn ystyried sut y gellir gwella'r brif ystafell aros trwy symud y blychau siarad ar ddesg y dderbynfa i sicrhau bod y derbynydd yn gallu clywed yr hyn mae'r claf/perthynas yn ei ddweud.

Ar y cyfan, roedd y staff o'r farn y gallai'r dderbynfa elwa ar gael clerc ward 24-awr er mwyn ateb y ffôn, a oedd byth a beunydd yn canu.

Roedd dau dŷ bach yn y brif ardal aros, ond nid oedd un ohonynt yn gweithio, ac roedd wedi bod yn y cyflwr hynny ers pum diwrnod. Roedd potensial i hwn achosi problemau i gleifion a pherthnasau oedd yn aros.

Argymhelliad

Argymhellir bod y bwrdd iechyd yn sicrhau bod y tai bach yn ystafell aros y cleifion yn gweithio'n iawn.

Y tu blaen i fynedfa'r rhai sy'n cerdded i mewn, gwnaethom sylwi ar ardal ddynodedig i blant chwarae ac ardal ar wahân ar draws y coridor o ardal chwarae'r plant. Dywedodd staff wrthym nad oedd yr ardaloedd hyn yn cael eu defnyddio'n arferol oherwydd eu lleoliad mewn perthynas â'r ardal aros gyffredinol.

Roedd gan yr ardal aros gyffredinol, er yn fach, rai teganau i ddifyrru plant sy'n aros gyda phobl eraill yn yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys. Mae'r adran yn gweithio yn unol â pholisi lle rhoddir lliw melyn ar nodiadau'r holl blant sy'n mynychu'r adran i sicrhau eu bod yn cael eu gweld a'u trin fel blaenoriaeth. Cafodd staff gyfle i

arddangos eu gwybodaeth i AGIC ynglŷn â diogelu plant, ac roedd yn ymddangos hefyd eu bod wedi cael hyfforddiant yn y maes hwn.

Mae gan yr adran un ciwbicl pediatrig mewn uned anafiadau difrifol ac un ciwbicl pediatrig yn yr ardal ddadebru. Mae gan yr ardal ddadebru bediatrig yr offer dadebru pediatrig ofynnol. Gellir defnyddio'r ciwbicl ar gyfer dadebru oedolion lle bo'r angen.

Mae perthynas waith ddeongliadol rhwng yr adran a'r wardiau iechyd meddwl, sydd wedi'u lleoli ochr yn ochr â'r adran. Fodd bynnag, bu problemau ynglŷn â chael mynediad at Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed, yn enwedig y tu allan i oriau ac yn ystod y penwythnos, a gorfu i gleifion gael eu hanfon at y wardiau pediatrig ar gyfer arsylwadau.

Argymhelliad

Argymhellir y bwrdd iechyd bod angen iddo ddangos sut y bydd yn sicrhau bod gwelliannau'n cael eu gwneud i ddarpariaeth bresennol Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed, yn enwedig y tu allan i oriau ac yn ystod y penwythnosau.

Cyflenwi Hanfodion Gofal

Gwelsom staff yn cyflenwi hanfodion gofal. Daeth i'r amlwg yn sgil ein trafodaethau â'r staff bod hanfodion gofal yn sail i driniaeth yr holl ofal a'r driniaeth a ddarperir yn yr adran. Dywedodd y nyrs â gofal, "*Mae hanfodion gofal yn ymwneud â gosod safonau a pheidio â gadael i'r safonau hynny lithro.*"

Cyfathrebu a gwybodaeth

Rhaid i bobl dderbyn gwybodaeth lawn am eu gofal mewn iaith a ffordd sy'n ystyriol o'u hanghenion.

Gwelsom dîm o staff effeithiol ar waith dan arweiniad cryf y ddau reolwr nyrsio ac un ymgynghorydd. Gwelwyd bod yr holl staff yn darparu gofal ac yn rhyngweithio â chleifion mewn ffordd sensitif a phroffesiynol. Gwelsom blentyn yn derbyn gofal mewn ciwbicl dynodedig i blant, a gwnaethom sylwi bod staff yn sensitif i anghenion y plentyn a'r rhiant. Gwelsom oedolion yn derbyn gofal yn y brif adran. Roedd nifer o'r cleifion ar wahanol gamau o'u triniaeth a'r broses sefydlogi.

Mae gan yr adran system ddolen sain i gleifion sydd ag anawsterau clywed. Mae'r adran hefyd yn darparu gwasanaeth Braille i gleifion sydd ei angen. Er na welsom gleifion yn siarad yn Gymraeg â chleifion eraill, roedd gan nifer o'r nyrsys fathodyn Iaith Gwaith² wedi'i arddangos ar eu gwisg. Mae gwasanaethau cyfieithu eraill ar gael os oes eu hangen.

Mae bwrdd gwybodaeth i'r cleifion yn y brif ardal driniaeth. Mae'r bwrdd yn caniatáu i'r clinigyddion weld enw'r claf, y diagnosis, a lle maen nhw arni o ran eu triniaeth. Fodd bynnag, er bod y bwrdd yn hanfodol i'r clinigydd wrth ddarparu triniaeth effeithlon, nid oedd mecanwaith ar waith i alluogi staff i roi gorchudd dros yr wybodaeth a oedd ar y bwrdd. Mae posibilrwydd y gallai gwybodaeth cleifion gael ei gweld gan berthnasau neu gan gleifion eraill.

²Cynllun Cymraeg yw Iaith Gwaith sy'n hyrwyddo'r Iaith Gymraeg. Mae'n darparu cymorth ac adnoddau ar gyfer busnesau a sefydliadau sydd â staff sy'n siarad Cymraeg. Gellir adnabod y staff sy'n siarad Cymraeg wrth y logo Iaith Gwaith sydd ar eu bathodyn.

Argymhelliad

Argymhellir bod y bwrdd iechyd yn gosod bwrdd gwybodaeth y cleifion mewn ardal lle gellir sicrhau cyfrinachedd cleifion ar bob adeg.

Parchu pobl

Rhaid amddiffyn hawliau dynol sylfaenol i urddas, preifatrwydd a dewis gwybodus bob amser, ac mae'n rhaid i'r gofal a ddarperir ystyried anghenion, galluoedd a dymuniadau'r unigolyn.

Yn yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys, siaradwyd â phobl gan staff cyfeillgar, cwrtais a chan ddangos parch tuag atynt.

Gwelsom gleifion yn cael eu trin â charedigrwydd a pharch gan staff. Yn ogystal, roedd y cleifion y siaradwyd â hwy yn canmol agwedd y staff a'u hymddygiad tuag atynt. Roedd gan bob un o'r cleifion, boed ar droli neu'n eistedd mewn cadair, flanced yn eu gorchuddio. Fodd bynnag, dywedodd staff bod prinder o glustogau er gwaetha'r ffaith bod hyd at 30 i 40 o glustogau'n cael eu harchebu bob mis. Gwelsom flancedi yn cael eu defnyddio yn hytrach na chlustogau.

Daeth llawer o gleifion i'r adran gyda'u pherthnasau/gofalwyr, a gwelsom staff yn annog presenoldeb yr unigolion hyn.

Argymhelliad

Argymhellir bod y bwrdd iechyd i sicrhau bod darpariaeth clustogau yn cael ei chynnal.

Hybu annibyniaeth

Rhaid i'r gofal a ddarperir barchu dewisiadau'r unigolyn i fanteisio i'r eithaf ar eu gallu a'u dymuniad i ofalu amdanynt eu hunain.

Oherwydd nad yw'n fwriad i gynnal arosiadau hir yn yr adran, ni welsom annibyniaeth cleifion yn cael ei hyrwyddo neu ei blaenoriaethu yn yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys.

Perthynas aq eraill

Mae'n rhaid annog pobl i gadw mewn cysylltiad â'u teulu a'u ffrindiau a datblygu perthnasau â phobl eraill yn unol â'u dymuniadau.

Daeth llawer o gleifion i'r adran gyda'u pherthnasau/ gofalwyr, a gwelsom staff yn annog presenoldeb yr unigolion hyn.

Er bod ystafell fach i'r perthnasau/ystafell dawel ger y brif ystafell aros, cawsom wybod bod hon hefyd yn cael ei defnyddio ar gyfer asesiadau iechyd meddwl.

Argymhelliad

Dylai'r bwrdd iechyd ystyried addasrwydd defnyddio'r un ystafell at ddibenion gwahanol.

Gorffwys, cysgu a gweithgareddau

Rhoddir ystyriaeth i amgylchedd a chysur pobl fel y gallant orffwys a chysgu.

Roedd staff yr adran yn gweithredu i ganiatáu i gleifion gael seibiant, lle bo'n bosibl, gan ystyried natur brysur yr amgylchedd.

Roedd yr adran yn gymharol brysur, ond nid oedd yn swnllyd, yn hytrach roedd yn heddychlun ac wedi'i threfnu'n effeithiol, ac roedd yr holl staff yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau. Gwelwyd bod y staff i gyd hefyd yn ddiffwdan ac yn siarad yn dawel.

Sicrhau cysur a lleddfu poen

Rhaid helpu pobl i fod mor gyfforddus ac mor ddi-boen ag y mae eu hamgylchiadau yn caniatáu.

Yn yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys, roedd y staff nyrsio'n gweithio'n agos at gleifion yn eu gofal, a gwnaethom sylwi eu bod yn cwblhau cofnodion cleifion cyn gynted â phosibl, ar ôl darparu gofal neu pan oedd cyflwr claf yn newid.

Gwelsom ddefnydd o sgoriau poen i fonitro lefelau o boen, a gwelsom fod y rhain yn cael ymateb iddynt a bod ymyriadau priodol yn digwydd er mwyn lleihau poen. Defnyddir sgôr 1 i 10 i asesu'r boen, a defnyddir wyneb hapus gyda phlant.

Glendid personol, ymddangosiad a gofal traed

Rhaid cefnogi pobl i fod mor annibynnol â phosibl wrth ofalu am eu hylendid personol, eu hymddangosiad a'u traed.

Gwelsom y staff nyrsio yn yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys yn rhoi cymorth i gleifion a oedd ag anghenion hylendid personol.

Roedd yr adran yn cadw stoc o offer hylendid personol ac roedd gan y cleifion hynny a oedd ei angen fynediad at gawodydd cleifion.

Bwyta ac yfed

Rhaid cynnig dewis o fwyd a diod i bobl sy'n bodloni eu gofynion maethol a phersonol, a dylid darparu unrhyw gymorth sydd ei angen arnynt i fwyta ac yfed.

Cwblheir asesiadau maeth fel rhan o asesiad y claf, os yw'r claf wedi bod yn yr adran am yn hirach na phedair awr. Mae ffynnon ddŵr wedi'i lleoli rhwng yr uned mân anafiadau a'r uned anafiadau difrifol, ac mae'n hawdd mynd ati.

Ni welsom gleifion yn bwyta yn ystod yr arolygiad. Fodd bynnag, gwnaethom ddysgu bod yr adran yn derbyn ymwelwyr o leiaf pum gwaith y diwrnod gan aelod yr adran tîm arlwyo i gynnig dewis o brydau bwyd poeth i gleifion. Cedwir amrywiaeth o frechdanau yn yr adran, ac maen nhw ar gael 24 awr y dydd. Cynigir diodydd poeth o leiaf pum gwaith y diwrnod, ond gall cleifion gael diod oer neu boeth yn ôl y gofyn.

Iechyd a hylendid y geg

Rhaid cefnogi pobl i gadw eu cegau'n iach ac yn gyfforddus, a'u dannedd a'u deintgig yn rhydd o boen, er mwyn eu galluogi i fwyta'n dda a rhwystro problemau cysylltiedig.

Mae dogfennau nyrsio'n cynnwys asesiadau iechyd y geg fel mater o drefn, yn ôl yr angen.

Ni welsom unrhyw dystiolaeth o ofal iechyd y geg yn cael ei ddarparu yn yr adran. Fodd bynnag, roedd offer i ddarparu gofal y geg megis potiau dannedd gosod a brwsys dannedd ar gael pe bai eu hangen ar gleifion.

Anghenion toiled

Mae'n rhaid darparu cymorth priodol, diffwdan a phrydlon yn ôl yr angen, gan ystyried preifatrwydd ac unrhyw anghenion penodol.

Roedd anghenion toiled yn cael eu bodloni. Roedd bwndeli ymataliaeth³ yn rhan o'r ddogfennaeth asesiad.

³Dull sy'n galluogi pob nyrs yng Nghymru i asesu anghenion ymataliaeth eu cleifion yw bwndel ymataliaeth, ac mae'n eu galluogi i archwilio'r gofal a ddarperir a chynnig cyfle i gleifion roi adborth.

Gwelsom staff yn helpu cleifion i fynd i'r toiled yn brydlon pan ofynnwyd iddynt. Gwnaethom hefyd sylwi bod y ddau doiled yn yr ardal driniaeth a'r comedau yn lân ac wedi'u labeli. Roedd hefyd stoc o badiâu ymataliaeth ar gael yn yr adran.

Roedd dau dŷ bach yn yr ystafell aros, roedd un nad oedd yn gweithio ac roedd wedi bod yn y cyflwr hynny ers pum diwrnod.

Atal briwiau pwyso

Rhaid helpu pobl i ofalu am eu croen a gwneud pob ymdrech i'w hatal rhag datblygu briwiau pwyso.

Nid yw'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys wedi'i chyfarparu ag offer lleddfu pwysedd yn safonol. Fodd bynnag, mae unrhyw gyfarpar sy'n lleddfu pwysedd neu welyau arbenigol yn hygyrch iawn.

Mae'r adran yn defnyddio Llwybr Rhyddhau Pwysedd Cymru Gyfan gan gynnwys bwndel SKIN⁴ a chroesau diogelwch a oedd wedi'u harddangos yn y coridor. Gwneir cofnod o unrhyw glaf sy'n cyrraedd yr adran sydd ag wiser pwyso drwy system Datix.⁵

Gwelsom nyrs yn rhoi gofal i glaf bariatrig ar wely arbenigol. Gwnaeth yr adran drefnu i'r gwely gael ei anfon at yr adran y prynhawn hwnnw, pan gawsant wybod eu bod ar fin derbyn claf bariatrig.

⁴Os ystyrir bod claf mewn perygl o ddatblygu wiser pwyso, mae bwndel SKIN yn ei gwneud yn ofynnol i nyrsys gofnodi eu bod wedi archwilio ei groen bob dwy awr o leiaf, er mwyn lleihau'r tebygolrwydd o niwed.

⁵Dull a ddefnyddir yn y GIG i gofnodi, ymchwilio a dadansoddi achosion digwyddiadau andwyol a damweiniau fu bron â digwydd yw meddalwedd DATIX.

Ansawdd Staffio, Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Yn ystod y ddau ddiwrnod, gwelsom dîm o staff effeithiol ar waith dan arweiniad gadarn gan ddau reolwr nyrsio ac ymgynghorydd.

Lefelau staffio, cymysgedd sgiliau, ac atebolrwydd proffesiynol

Yn ystod yr arolygiad, cawsom gefnogaeth gadarn gan nyrs â gofal yr adran, a wnaeth ddarparu darlun o'r strwythur rheoli yn yr adran, y gyfarwyddiaeth, a hefyd lefel rheoli'r safle. Rhoddwyd gwybodaeth i ni am y ffordd y mae tîm y staff yn monitro ac yn cefnogi ansawdd ledled yr adran.

Ar hyn o bryd, mae cyfwerth â nifer oriau pedair nyrs a hanner llawn amser yn gweithio yn yr adran. Dywedodd y nyrs â gofal eu bod nhw'n ceisio sicrhau bod o leiaf un nyrs bediatrig gofrestrdig yn gweithio fesul sifft. Fodd bynnag, os nad ydynt yn gallu cynnal sifft gyda nyrs bediatrig gofrestrdig, caiff yr adran ei chefnogi gan wardiau pediatrig yr ysbyty a'r ymarferydd nyrsio pediatrig.

Mar gan yr adran berthynas waith ddeongliadol â'r timau cyswllt rhyddhau, rheolwyr y safle a'r rheolwyr gwelyau. Gwnaethom arsylwi ar reolwr safle ac ymarferydd sifft nos yn ymweld â'r adran ar ddechrau ac ar ddiwedd eu priod sifftiau i gysylltu â staff i sicrhau bod llif y cleifion yn cael ei gynnal.

Dywedodd staff wrthym eu bod o'r farn bod y lefelau staffio a chyfuniad y sgiliau yn dda iawn. Roedd absenoldeb oherwydd salwch yn isel iawn, a dim ond un aelod o staff a oedd yn absennol oherwydd salwch ar y pryd. Pe bai angen staff ychwanegol, oherwydd cynnydd yn y capasiti, gellir cael hyd i staff asiantaethau neu nyrs gronfa.

Roedd Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd band 2 a band 3 yno. Roedd Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd band 2 yn cefnogi nyrsys cofrestredig wrth ddarparu gofal i'r cleifion, tra bod Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd band 3 yn cael eu hyfforddi i ymgymryd ag arsylwadau, gorchuddiadau mân anafiadau, a 'venipuncture'.⁶ Mae'r adran hefyd yn cyflogi dau aelod o staff Twf Swyddi Cymru,⁷ sy'n gweithio gyda'r

⁶'Venipuncture' yw'r broses o gael mynediad mewnwythiennol at ddibenion therapi mewnwythiennol neu ar gyfer samplu gwaed.

⁷Rhaglen a ddyluniwyd i helpu pobl ifanc di-waith i gael profiad mewn gweithle, drwy roi swydd gychwynnol iddynt am gyfnod o chwech mis, yw Twf Swyddi Cymru.

gweithwyr cymorth gofal iechyd ac sy'n cynorthwyo gydag anghenion bwydo ac anghenion tai bach y cleifion.

Dywedodd staff wrthym fod newid wedi bod yn yr uwch-reolwyr yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, sydd wedi cael effaith nodedig ar wella lefelau absenoldeb yn sgil salwch a morâl y staff. Dywedodd staff eu bod yn mwynhau gweithio yn yr adran, roeddent yn hapus ac yn teimlo eu bod yn derbyn cefnogaeth lawn.

Systemau effeithiol ar gyfer trefnu gofal clinigol

Gwelsom dîm o staff a oedd yn hyderus wrth flaenoriaethu anghenion clinigol cleifion/anghenion gofal brys. Pan oedd angen gofal brys ar gleifion, gwelsom fod hwn yn cael ei roi iddynt yn gyson brydlon, gan gynnwys y cleifion hynny a oedd yn cyrraedd mewn ambiwlansys.

Roedd pobl a oedd â chyflwr mwy sefydlog yn cael eu gweld yn amserol. Gwelwyd yr ymarferydd nyrsio yn cyflenwi safon uchel o ofal a thriniaeth i gleifion, ac roedd hyn yn caniatáu i nifer yr aelodau a oedd yn weddill i ganolbwyntio ar y cleifion hynny a oedd â gofynion clinigol mwy brys.

Cawsom wybod ar adegau mwy prysur ei fod yn bolisi ar ran y bwrdd iechyd na ddylai unrhyw glaf orfod aros yng nghefn ambiwlans nes cael lle mewn adran benodol. Roedd yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys yn sicrhau yn ystod cyfnodau mwy prysur, pan fydd cleifion yn cael eu derbyn i'r adran a'u lleoli ar droli yng nghoridor y brif ardal driniaeth (sy'n ardal led agored), y caiff nyrsys eu neilltuo i fod gyda grŵp o gleifion sy'n aros ar droliau yn y coridor i ddarparu'r gofal a'r driniaeth angenrheidiol ar gyfer y cleifion hynny. Ni welsom hyn yn ystod yr arolygiad oherwydd nid oedd unrhyw gleifion yn aros yn y coridorau.

Hyfforddiant a datblygiad

Mae agwedd gadarnhaol tuag at hyfforddiant a datblygiad yn yr adran. Roedd gan yr holl staff yr wybodaeth gyfredol yn unol â gofynion yr hyfforddiant gorfodol. Roedd mwyafrif y staff wedi derbyn hyfforddiant mewn trefniadau diogelu rhag colli rhyddid, trais ac ymddygiad ymosodol, diogelu, a thrais domestig.

Dywedodd staff wrthym eu bod yn gallu cael mynediad at hyfforddiant gorfodol a'u bod yn mynychu diweddariadau rheolaidd. Fodd bynnag, mae'n ymddangos mai hyfforddiant mewn trais ac ymddygiad ymosodol yn unig a gafodd y derbynnydd ar y ddesg flaen yn ogystal â'r staff diogelwch, ac fe fyddent hwy hefyd yn elwa ar fynychu'r rhaglen hyfforddiant diogelu.

Gwelsom y timau iechyd a diogelwch a'r timau rheoli heintiau yn cyflenwi hyfforddiant Ebola i staff yr adran a oedd ar ddyletswydd. Dywedodd y tîm rheoli

heintiau eu bod yn gweithio'n agos â'r tîm iechyd a diogelwch yn ogystal â'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys gan ddarparu'r holl staff â diweddariadau rheolaidd.

Argymhelliad

Argymhellir bod y bwrdd iechyd yn ystyried cynnwys staff y dderbynfa yn ogystal â'r staff diogelwch yn y rhaglenni hyfforddiant diogelu.

Ymdrin â chwynion a phryderon

Roedd agwedd agored a chadarnhaol tuag at ymdrin a dysgu wrth gwynion. Caiff cwynion eu harchwilio, rhoddir adborth i staff, a chyflwynir newidiadau i'r arfer.

Gwelsom fod staff yn agored ac yn onest ynglŷn â chwynion. Dywedwyd wrthym yr ymdrinnir â chwynion gan brif nyrs sydd ar ddyletswydd yn yr adran. Hysbysir yr uwch nyrs ond nid yw hi o reidrwydd yn ymwneud ag ef.

Gwelsom dystiolaeth o ddau newid i'r arfer yn y practis yn sgil cwynion. Y newid cyntaf oedd cyflwyno polisi lle rhoddir lliw melyn ar nodiadau'r holl blant sy'n mynychu'r adran i sicrhau eu bod yn cael eu gweld a'u trin fel blaenoriaeth. Yr ail newid oedd bod y cloriau ar y biniau a oedd yn cynnwys nwyddau miniog yn cael eu nodi'n glir ac yn cael eu cadw ar gau i leihau nifer yr anafiadau yn sgil eitemau miniog.

Cyflenwi Gwasanaeth Diogel ac Effeithiol

Rhaid hybu ac amddiffyn iechyd, diogelwch a lles pobl yn weithredol. Rhaid nodi a monitro risgiau a'u lleihau neu eu hatal lle'n bosibl.

Mae'r adran yn rhoi sylw dyledus i ddiogelwch, lles a risg. Er nad oeddem wedi gweld yr adran yn gweithio i'r eithaf, roeddem yn fodlon y gallai'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys gynnal lefel digonol o ddiogelwch i gleifion pe bai cynnydd o ran galw.

Rheoli risgiau

Mae gan yr adran nifer o ffurflenni asesiadau risg a ddefnyddir yn unol â'r dogfennau nyrsio/meddygol. Fe wnaeth yr adran ddarparu copïau o'u ffurflenni asesiadau risg ynglŷn â thrais ac ymddygiad ymosodol a thrin cleifion.

Dyweddodd y staff wrthym fod yr adran yn cydweithio'n agos â'r tîm iechyd a diogelwch a staff yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys gan ddarparu diweddariadau rheolaidd i'r holl aelodau staff.

Polisiâu, gweithdrefnau a chanllawiau clinigol

Caiff holl bolisiâu, gweithdrefnau, llwybrau clinigol, archwiliadau a'r codau ymddygiad ar gyfer nyrsys sydd wedi'u cofrestru yn ogystal â nyrsys sydd heb eu cofrestru eu storio ar fewnwyd y staff, ac maen nhw'n hygyrch iawn ac yn cael eu diweddarau'n rheolaidd.

Mae llwybrau clinigol, protocolau a gweithdrefnau wedi'u harddangos mewn ardaloedd strategol drwy gydol yr adran, gan gynnwys yn y cilfannau dadebru sy'n hygyrch iawn. Gwelsom silffoedd wedi'u gosod ar y wal i ddal ffeiliau yn y cilfannau a oedd yn cynnwys llwybrau clinigol megis strôc, hypoglycaemia, toriad yn y gwddf neu'r glun, a sepsis.

Systemau effeithiol ar gyfer archwilio ac effeithiolrwydd clinigol

Mae'r adran yn cydweithio ag adrannau iechyd a diogelwch a rheoli heintiau, ac roedd ganddi system glir ar waith ar gyfer archwilio arferion a'r amgylchedd.

Dyweddodd staff wrthym eu bod yn cael eu hannog i gymryd rhan wrth archwilio'r amgylchedd. Er enghraifft, cynhelir gwiriad tân yn yr adran bob dydd. Mae croesau diogelwch hefyd wedi'u harddangos ar gyfer manau pwyso, cwmpadau a chwynion.

Diogelwch cleifion

Roedd y staff yn gweithio'n agos at y cleifion a oedd yn eu gofal ac roeddent yn gwisgo bathodynau adnabod.

Gwelsom dîm o staff a oedd yn gallu blaenoriaethu anghenion clinigol cleifion ac anghenion gofal brys mewn ffordd effeithiol.

Er bod gan yr adran giwbicl penodol sydd wedi'i neilltuo mewn uned anafiadau difrifol yn ogystal â'r ardal ddadebru ar gyfer pediatreg, nid oes ardal ar wahân ar gyfer rhoi triniaeth i gleifion pediatrig.

Argymhellion

Argymhellir bod y bwrdd iechyd yn ystyried darparu ardal driniaeth bediatrig ar wahân wrth wneud datblygiadau/newidiadau i strwythur yr adran yn y dyfodol.

Gwelsom feddyg yn cymryd sampl gwaed wrth y claf heb iddo wisgo menig.

Argymhellion

Rhaid i'r bwrdd iechyd atgoffa'r holl staff yn yr adran i wisgo menig wrth gymryd gwaed wrth gleifion, a'u hatgoffa am y rhesymau dros wneud hynny.

Rheoli meddyginiaeth

Gweinyddu

Gwelsom nyrs yn gweinyddu meddyginiaeth geneuol i un o'r cleifion yn yr uned mân anafiadau, gan ddilyn y dull cywir. Fe wnaeth y nyrs weinyddu'r feddyginiaeth yn unol â chanllawiau rheoli meddyginiaethau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.

Gwelsom nyrs yn paratoi ac yn gweinyddu trwythiad mewnwythiennol.

Storio cyffuriau

Roedd yr holl gyffuriau a reolir wedi'u storio'n gywir mewn cwpwrdd ac roedd tystiolaeth i ddangos bod stoc y cyffuriau a reolir yn cael eu gwirio'n rheolaidd. Roedd y llyfr cyffuriau a reolir yn cael ei gadw mewn lle diogel.

Yn yr ardal ddadebru, gwelsom gwpwrdd cyffuriau a oedd ar agor. Cawsom sgwrs â nyrs, ac fe aeth hi ati i gloi'r cwpwrdd ar unwaith, ond bu'n rhaid i'r nyrs rhoi pedwar cynnig i gloi'r cwpwrdd oherwydd roedd y clo yn gwrthod cloi yn gywir bob tro.

Argymhelliad

Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r cypyrddau cyffuriau sydd ar y wal yn yr adran i wirio ansawdd y cloeon.

Dogfennau

Asesu Cleifion

Gwelsom staff yn cwblhau cofnodion cleifion cyn gynted â phosibl ar ôl darparu gofal neu pan fod newid yng nghyflwr y claf. Dywedodd y staff wrthym fod nifer o asesiadau ar waith yn sgil y ddogfennaeth gan gynnwys asesu poen, asesu ymataliaeth, asesu maeth, ac asesu wlsr pwysu.

Rheolaeth yr adran

Roedd tystiolaeth fod arweinyddiaeth gadarn yn cael ei darparu gan y ddwy nyrs rheoli a'r ymgynghorydd yn yr adran yn ogystal â chefnogaeth gan yr uwch nyrs.

6. Y Camau Nesaf

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i ddelio â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad a chyflwyno eu cynllun gwella i AGIC o fewn pythefnos i ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad hwn.

Dylai cynllun gwella'r bwrdd iechyd nodi'n glir pryd a sut y bydd yn mynd i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn Adran Damweiniau ac Achosion Brys Ysbyty Brenhinol Morgannwg, gan gynnwys amserlenni. Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau nad yw canfyddiadau'r arolygiad hwn yn gyfundrefnol ar draws adrannau/unedau eraill y bwrdd iechyd.

Caiff cynllun gwella'r bwrdd iechyd, unwaith y caiff ei gytuno, ei gyhoeddi ar wefan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, a chaiff ei werthuso'n rhan o'r broses arolygu barhaus o urddas a gofal hanfodol.